



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ynghylch Staffio

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 95/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol yn ddatblygiadol, i blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bedwar papur sy'n canolbwyntio ar **weithredu**. Mae'n defnyddio 239 o arsylwadau ystafelloedd dosbarth a lleoliadau, 341 o gyfweiliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg a dadansoddiad a ddata gweinyddol cenedlaethol.

Canfyddiadau Allweddol

- Nododd y rhan fwyaf o athrawon, penaethiaid ac Arweinwyr Cyfnod Sylfaen a'u cyfwelir fod y cymharebau oedolion a phlant uwch yn **angerheidiol i weithredu'r Cyfnod Sylfaen**.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth (o'r ysgolion sy'n astudiaethau achos) **fod lefelau cymwysterau Ymarferwyr Ychwanegol yn ffafriol at ei gilydd** – gydag 81% o'r Ymarferwyr Ychwanegol y gwnaethom arsylwi arnynt yn meddu ar gymhwyster cyfwerth ag NVQ Lefel 3 neu uwch.
- Mae cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at ostyngiad cyffredinol mewn dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 o oddeutu 19 o blant fesul oedolyn ar gyfartaledd ym mhob ysgol yn 2004/05, i oddeutu 10 o blant fesul oedolyn yn 2012/13 – bron **yn dyblu nifer yr oedolion** sy'n gweithio gyda'r grwpiau blwyddyn hyn.
- Rydym yn amcangyfrif bod tua 50% o ddosbarthiadau Derbyn a Meithrin wedi **bodloni'r gymhareb oedolion a phlant argymelledig**, sef 1:8, ac fod 90% o ddosbarthiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 wedi bodloni'r gymhareb argymelledig, sef 1:15 yn 2011/12.
- Dywedodd 72% o ysgolion a 79% lleoliad nas cynhelir a ariennir **nad oeddent wedi wynebu rhwystrau o ran bodloni'r cymarebau oedolion a phlant**.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Canfyddiadau Allweddol Pellach

Roedd un o'r newidiadau mawr a ddeilliodd o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ym maes staffio. Fe wnaeth hyn gynnwys **ad-drefnu uwch reolwyr** mewn ysgolion cynradd a bodloni **cymarebau newydd (uwch) rhwng oedolion a phlant** (1:8 ar gyfer plant 3-5 oed; 1:15 ar gyfer plant 5-7 oed).

Rydym wedi nodi'n flaenorol (yn *Canfyddiadau Allweddol ynghylch Addysgeg a Dealltwriaeth*) **bod perthynas bach ond arwyddocaol rhwng y graddau y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith** mewn ystafelloedd dosbarth ac ysgolion (fel y gwnaeth y tîm gwerthuso arsylwi arno a'i fesur) **a phresenoldeb ymarferwyr ychwanegol yn yr ystafelloedd dosbarth** (h.y. cymarebau uwch o oedolion a phlant).

Prif effeithiau cadarnhaol cael mwy o oedolion yn yr ystafell ddosbarth **yw'r rhai y mae athrawon eu hunain yn rhoi gwybod amdanynt ac effeithiau anuniongyrchol eraill ar addysgu**, fel darparu'r hyblygrwydd i staff allu ymgymryd a

hyfforddiant pellach neu datblygiad proffesiynol. Mae ymchwil o Loegr wedi dangos bod presenoldeb ymarferwyr ychwanegol mewn ystafelloedd dosbarth yn gwneud y mwyaf o sylw disgyblion ac athrawon i waith¹. Ond, mae'r mathau hyn o ddeilliannau yn anodd eu mesur ac nid yw'n ymddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth amlwg i ddadansoddiadau ar raddfa fawr o gyflawniad disgyblion.

Fe wnaeth adolygiad diweddar o gymwysterau ymhlith ymarferwyr ychwanegol yn Lloegr (Adolygiad Nutbrown) argymhell gofyniad am gymwysterau Lefel 3 ar gyfer ymarferwyr yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, a gosododd darged o 70% erbyn Medi 2015. Darganfuom fod **81% o ymarferwyr ychwanegol yn ysgolion yr astudiaethau achos yn meddu ar gymwysterau Lefel 3 neu uwch**, sy'n rhagori ar y targed a osodwyd ar gyfer Lloegr.

Mae **cymwysterau staff mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn is at ei gilydd** na

¹ Blatchford *et al.* (2004) *Research Report RR60*, London: Department for Education and Skills.

chymwysterau staff mewn ysgolion – gyda 68% o ymarferwyr ychwanegol yno yn meddu ar gymhwyster NVQ lefel 3 o leiaf (er bod hyn wedi'i seilio ar sampl bychan iawn).

Yn ôl data swyddogol Llywodraeth Cymru, roedd hyd at **15,923 o ymarferwyr** yn gweithio gyda phlant oedran y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion yn 2012. Fodd bynnag, roedd 19% o'r ymarferwyr hyn mewn ystafelloedd dosbarth oedran cymysg a oedd yn cynnwys plant Cyfnod Allweddol 2 hefyd.

Yn ôl data gweinyddol cenedlaethol² mae'r cymarebau oedolion a phlant argymelledig, ar gyfartaledd, **yn cael eu bodloni ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2 ond nid mewn dosbarthiadau Derbyn a Meithrin.**

Yn genedlaethol, y gymhareb gyfartalog rhwng oedolion a phlant yw: 1:9 i ddisgyblion Meithrin, 1:10 i ddisgyblion Derbyn, 1:13 i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 1:13 i ddisgyblion Blwyddyn 2. Y gymhareb gyfartalog ar gyfer dosbarthiadau cymysg yn y Cyfnod Sylfaen yw 1:10.

Fodd bynnag, rydym yn ffeindio bod data gweinyddol yn tueddu i **danamcangyfrif** yn sylweddol y cymarebau oedolion a phlant mewn cyfran fechan o ysgolion, o gymharu ag adroddiadau'r penaethiaid a'r hyn a welwyd mewn ysgolion sy'n astudiaethau achos.

Mae mapio'r cymarebau oedolion a phlant yn anodd iawn yng Nghymru oherwydd y gyfran uchel iawn o blant mewn **dosbarthiadau oedran cymysg**, gan gynnwys dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 cymysg.

Er gwaethaf yr amrywiaeth mewn cymarebau oedolion a phlant rhwng ysgolion, **nid oes unrhyw dystiolaeth fod yr amrywiaeth yma yn gysylltiol a gwahaniaethau yng nghyflawniad addysgol disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen** ar ôl rheoli am nodweddion unigol allweddol disgyblion a nodweddion lefel-ysgol.

Fodd bynnag, **mae'r math hwn o ddadansoddiad yn gyfyngedig iawn** oherwydd cywirdeb y wybodaeth am staffio, yr amrywiaeth yng nghymarebau'r

² Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion

oedolion a phlant rhwng grwpiau
Blwyddyn ac ystafelloedd dosbarth,
ac oherwydd bod cysylltiad cryf
rhwng cymarebau uwch o oedolion
a phlant a niferoedd uwch o blant
ag anghenion addysgol arbennig
mewn dosbarthiadau. At hyn, dim
ond wrth i ddata ychwanegol
ymddangos all dadansoddiadau'r
dyfodol ystyried os yw cymharebau
gwell rhwng oedolion a phlant yn y
Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â
deilliannau gwell ar ddiwedd
Cyfnod Allweddol 2

Awduron: Chris Taylor, Samuel
Waldron a Mirain Rhys (Prifysgol
Caerdydd).

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth
Cymru, 11 Tachwedd 2014

ISBN: 978-1-4734-2241-4

© Hawlfraint y Goron 2014



Pob cynnwys ar gael o dan y
Drwydded Llywodraeth Agored
v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel
arall.

[http://www.nationalarchives.gov.uk/
doc/open-government-
licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/)